# Polisi ar rannu gwybodaeth i rieni sydd sydd wedi gwahanu

(yn y polisi hwn gall rhiant olygu person sy'n warcheidwaid efo hawliau rhiant)

**Cyd-destun**

Rydym yn byw mewn cyfnod lle mae mwy a mwy o'n rhieni wedi gwahanu ac mae sefydlu trefn glir ynghylch rhannu gwybodaeth yn fanteisiol, yn arbennig pan fo achosion yn gymhleth ac yn aml yn cynnwys asiantaethau allanol a chynghori cyfreithiol.

**Nod**

- Sicrhau bod pob rhiant yn derbyn gwybodaeth am gynnydd a datblygiad eu plentyn
- Sicrhau bod y rhiant sydd â gofal dydd-i-ddydd o blentyn yn cael y wybodaeth angenrheidiol am drefniadaeth dydd-i-ddydd yr ysgol.

**Canllawiau**

1. Cyfrifoldeb rhieni yw hysbysu'r ysgol eu bod wedi gwahanu a'u bod yn dymuno derbyn copi personol o ohebiaeth.

2. Bydd yr ysgol yn postio, neu trefnu bod plentyn yn cario, yr ohebiaeth ganlynol i'r ddau riant:

- Cychlythyrau tymhorol a llythyrau eraill sy'n rhoi gwybodaeth am weithgareddau'r ysgol
- Adroddiad Blynyddol y plentyn
- Cyhoeddiadau Sirol/Cenedlaethol i rieni
- Gwybodaeth gan y Corff Llywodraethol ee Adroddiad Blynyddol, Etholiadau
- Gwybodaeth gan y Gymdeithas Rhieni a Chyfeillion
- Gwybodaeth am apwyntiadau Nosweithiau Agored
- Manylion am gyfarfodydd penodol mae'r ysgol yn drefnu i drafod y disgybl ee Adolygiadau AD
- 

3. Bydd yr ysgol yn anfon y wybodaeth ganlynol i'r rhiant sydd a gofal dydd-i-ddydd o'r plentyn:

- Gwybodaeth am ddiwrnod gwersi addysg gorfforol, drefniadau gwaith cartref, cofnodion cyd-ddarllen
- Newidiadau sydyn i amserlen arferol yr ysgol ee cau yn gynt oherwydd tywydd drwg
- Gwybodaeth am weithgaeddau penodol sy'n gofyn am ganiatâd rhiant, cyfraniad ariannol neu ddillad penodol ee trip y dosbarth, gwersi nofio/beicio
- Gwybodaeth am ddyledion cinio/llefrith a thâl gwersi offerynnol etc
- Gwybodaeth am apwyntiadau meddygol neu efo pobl broffesiynol eraill
- Cais am drafodaeth am ddigwyddiad penodol

**Rhoi Caniatâd**

Mae'r ysgol yn gofyn i riant roi caniatâd i wahanol bwrpasau, yn cynnwys

- Arwyddo cytundeb cartref-ysgol
- Caniatâd i dynnu llun
- Mynediad i'r rhyngrwyd
- Caniatâd i drip/wersi nofio neu dennis
- Caniatâd i weld y meddyg/nyrs ysgol
- Canitâd i fod yn rhan o weithgaredd penodol

Ym mhob sefyllfa, mae'r ysgol yn cymeryd bod cael canitâd un rhiant yn ateb y gofyn. Anfonir ffurflen ganiatâd rhan amlaf i'r rhiant mae'r disgybl yn byw efo ef/hi yn ystod wythnos ysgol.

**Achos Brys e.e. anaf/salwch**

- Cysylltir yn y lle cyntaf â'r rhiant mae'r disgybl yn byw efo ef/hi o ddydd-i-ddydd. Os ceir ateb ni chysylltir â'r rhiant arall.
- Os na ellir cysylltu a'r rhiant mae'r disgybl yn byw efo ef/hi o ddydd-i-ddydd yna cysylltir â'r rhiant arall neu â pherson a enwir fel person cyswllt ar y ffurflen SIMS.

**Hawliau Rhiant**

- Os yw'r ysgol wedi derbyn enw dau riant ar y ffurflen SIMS gyntaf, yna ysytrir bod gan y rhieni hawliau cyfartal hyd nes y bydd yr ysgol yn derbyn dogfen gyfreithiol yn nodi'n wahanol. Bydd gan unrhyw un o'r ddau riant, felly, yr hawl i nôl y plentyn o'r ysgol ar unrhyw amser. Ni fydd yr ysgol yn cymeryd unrhyw gam i rwystro'r plentyn rhag gadael yr ysgol oni bai bod pryder gwirioneddol am ddiogewlch y plentyn a phryd hynny fe weithredir yn ôl y Polisi/Canllawiau Amddiffyn Plant gan gysylltu â'r heddlu os oes raid.

**Gwaith Plant**

- Ar wahanol adegau mae plant yn mynd â gwaith adref efo nhw. Mae'n bwysig bod rhieni'n sylweddoli bod dadlau dros gael meddiant o ddeunydd o'r fath yn creu problemau i'r disgybl ee cerdyn Nadolig, ble nad yw'n ymarferol i'r plentyn wneud mwy nag un.
- Ar ddiwedd y dydd, ystyrir mai gwaith y plentyn ydyw, ac felly y plentyn ddylai ddewis ble mae'r gwaith yn mynd. Mae'r ysgol yn fodlon gwneud llun-gopi o sampl ddethol iawn o waith disgybl. Os na ellir datrys y sefyllfa bydd yr ysgol yn dod i benderfyniad ac o bosibl yn cadw'n gwaith.

**Casgliad**

- Yn y mwyafrif o achosion mae dealltwriaeth rhesymol rhwng rhieni ar y materion a nodir uchod, ond pa fo anghydfod mae'n bwysig nad yw amser ac egni staff yr ysgol yn cael eu gwastraffu ar ddatrys problemau a gwrthdaro rhieni.

Ar ddiwedd y dydd, rhaid i riant dderbyn penderfyniad y Pennaeth ar unrhyw fater.

Mabwysiadwyd: Tymor y Gwnawyn 2018 Adolygwyd: Tymor y Gwanwyn 2021

**Llofnodwyd ar ran Cadeirydd y Llywodraethwyr:** Alaw Ceris

**Dyddiad:** 29/1/24